



Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiwylliant, Llyfrgelloedd a Gwybodaeth

Chwefror a Mawrth 2023

Croeso

Wrth i ni ffarwelio â'r misoedd oeraf a chroesawu dyddiau hir a thywydd mwyn (gobeithio!), gobeithio fod pawb wedi cael ymlacio a mwynhau dros y Pasg. Diolch i chi am eich holl ymdrechion i barhau â'n gwasanaethau er gwaethaf yr heriau a gyflwynwyd drwy osgoi gwario anorfod yn y misoedd diwethaf. Byddaf yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf o ran y darlun ar gyfer 2024/5 pan ddaw i'r amlwg. Fel yr arfer, mae croeso i bawb yn yr Adran rannu adborth o ran sut y gallwn wneud pethau'n wahanol neu syniadau i gynhyrchu incwm.

Llyfrgelloedd a Gwybodaeth

Mae staff ym Mae Colwyn wedi bod yn brysur gydag ymgynghorwyr dylunio llyfrgell Opening the Book a chydweithwyr o'r tîm lles meddyliol i drawsnewid llawr cyntaf y llyfrgell yn ofod llachar, croesawgar ac addas i ddarllenwyr. Bydd ad-drefnu'r stoc a gosod dodrefn newydd yn ein galluogi i ddatblygu mwy o weithgareddau lles a darparu gofod dynodedig ar gyfer plant hŷn ac oedolion ifanc i dreulio eu hamser yno. Llongyfarchiadau mawr i Sharon, Cheryl, Andrew, Morag, Eunice a'r tîm am eu holl waith.

Mae'r staff wedi llwyddo i gyflawni sesiynau hyfforddiant pwysig a defnyddiol yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys casgliadau llyfrgell gwrth-hiliaeth, gwaith grant Llywodraeth Cymru dan arweiniad CILIP Cymru, a gynhaliwyd yn Theatr Colwyn. Roedd y siaradwyr yn cynnwys; Manon Gwynant o Pontio, a oedd yn gweithio ar brosiect gyda Chymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru i gynhyrchu llyfr plant '[Y Bysgodes](#)' (i'w gyhoeddi ddechrau'r haf) a Marie, un o diwtoriaid dan hyfforddiant o Gymdeithas Affricanaidd Gogledd Cymru, ac



Arwel Jones, pennaeth datblygu cyhoeddi yng Nghyngor Llyfrau Cymru. Bu i lyfrgellwyr o bob cwr o Gymru drafod dewis stoc, hyrwyddo ac ymgysylltiad cymunedol yn erbyn cefndir arddangosfa Oriol Colwyn 'Home in another land'.

Fel yr arfer, bu **Diwrnod y Llyfr** yn llwyddiant ysgubol. Eleni, bu i'r tîm weithio gyda Magic Light Productions, Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Dyffryn Conwy a Gogledd Orllewin Cymru a Chreu Menter i groesawu dros 300 o blant i ddatlu Diwrnod y Llyfr yn llyfrgell Llanrwst, Conwy a Llandudno.



Ar 11 Mawrth, croesawodd Llyfrgell Conwy awdur 'The Long Field', Pamela Petro i ddathlu lansiad y llyfr clawr meddal. Fel rhan o'i thaith o amgylch Cymru rhannodd safbwyntiau personol o ran sut yr oedd cysyniadau Hiraeth a Chynefin yn cyfrannu at y llyfr. Bu i staff Conwy gynrychioli'r Gwasanaeth Llyfrgell a'r Ganolfan Ddiwylliant yn Ffair Hadau Conwy eleni hefyd.

Hyfforddiant - mynychodd chwe aelod o dîm y llyfrgell, ynghyd â chynrychiolydd o Mind a chydweithwyr o Dîm Lles Meddyliol Gofal Cymdeithasol raglen hyfforddiant The Reader am dridiau ac maent yn awr yn hwyluswyr Darllen ar y Cyd. Bydd y tîm a'r cydweithwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant blaenorol yn darparu cyfleoedd Darllen ar y Cyd yn ein llyfrgelloedd yn rheolaidd. [Darllen ar y Cyd - The Reader](#)



Newyddion Da! Rydym wedi cyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru ar gyfer ffrwd cyllid TRI ar gyfer Adeiladau Eiconig ac roeddem yn llwyddiannus yn derbyn grant o £150,000 a fydd, gyda'r achos busnes a ddyfarnwyd yn flaenorol, yn ein galluogi i gyflawni'r atgyweiriadau hanfodol a'r gwaith gwella i'r to, drychiadau, ffenestri, goleuadau a tholedau yn adeilad Llyfrgell Bae Colwyn.

Croeso i Sam sydd wedi ymuno â'n Tîm Gwybodaeth a **diolch** i Denise Hughes sydd wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell ers dros 24 o flynyddoedd. Diolch am bopeth Denise, a mwynha dy ymdeoliad.

Diwylliant

Mae Strategaeth Ddiwylliant Creu Conwy'n cael ei chyflwyno ar draws ein pum tref fwyaf, lle bo'r Timau Tref newydd yn cyfarfod bob deufis ac mae cynrychiolaeth dda gan fusnesau lleol, arweinwyr cymunedol ac unigolion creadigol. Mae cynlluniau gweithredu wedi'u drafftio ar gyfer pob ardal ac mae arian yn cael ei geisio i alluogi rhaglenni cyffrous gan y gymuned.

Mae Amdani! Conwy yn weithredol gyda swyddogion newydd wedi'u penodi sydd wedi'u lleoli yn ein sefydliadau partner Disability Arts Cymru a Chefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy. Bydd y prosiect gwirfoddoli cynhwysol yn cael ei dreialu yn Llanrwst a Chonwy cyn ei gyflwyno ar draws y sir. Bydd y tîm yn cyfarfod gyda staff llyfrgell Llanrwst ddiwedd mis Mawrth i gyflwyno'r prosiect.

Mae **Arddangosfa Artistiaid a Gwneuthurwyr Conwy** a fu yng Nghanolfan Ddiwylliant Conwy wedi teithio i Lyfrgell Llandudno yn awr. Gan edrych y tu hwnt i'r gwaith celf a'r enwau adnabyddus, mae'r ffotograffydd o Gonwy, Graham Hembrough RCA yn dangos Artistiaid a Gwneuthurwyr Conwy yn eu hamgylchedd gwaith.





Mae ein prosiect **pobl ifanc creadigol** yn agosáu at ddiwedd y ddarpariaeth ar gyfer 22/23 gan ganolbwyntio ar gasglu adborth ac astudiaethau achos gan gyfranogwyr a hwyluswyr creadigol.




Diolch i'r gwaith gwych gan Sian, Ceri-Ellen a'r tîm, mae'r prosiect wedi derbyn cyllid CCG (£40,000) a chyllid Cyngor Celfyddydau Cymru (£50,000) i barhau i ddarparu'r rhaglen dan faner y Strategaeth Ddiwylliant a gyda'r enw newydd **Creu Conwy Ifanc**. Mae'r cyllid a ddyfarnwyd hefyd yn cynnwys cefnogi rhaglen fentora ar gyfer pobl ifanc fel rhan o **Ŵyl Gerddoriaeth Gigs y Gaeaf**.

Mae prosiect peilot **M-Sparc ar Daith ym Mae Colwyn** wedi dod i ben yn awr. Roedd i fod yn brosiect peilot am 3 mis, gyda chefnogaeth prosiect Dychmygu Bae Colwyn, ond bu i'r prosiect peilot bara 16 mis. Mae bron i 700 o

bobl wedi mynychu cyfanswm o 70 o ddigwyddiadau busnes a chymunedol. Hefyd, mae 140 o ddefnyddwyr Gofod Gwneuthurwyr yn amrywio o unigolion creadigol llawrydd i bobl ifanc sydd wedi'u heithrio o addysg y brif ffrwd a 480 o ddefnyddwyr gofod cydweithio. Mae'r prosiect yn gadael etifeddiaeth o ddysgu technoleg creadigol a gwell rhwydweithiau lleol. Bydd yr offer gofod gwneuthurwyr (Argraffwyr 3D ac ati) yn parhau i gael eu defnyddio er budd cymunedol drwy Uned Cyfeirio Disgyblion Penrhos Avenue a Tape Community Music and Film. Mae M-Sparc yn awyddus i gynnal y cysylltiadau a'r partneriaethau a ddatblygwyd yn yr ardal.

Agorodd arddangosfa newydd yn Oriol Colwyn 'Home in Another Land' gan Glenn Edwards/ Vanley Burke ym mis Chwefror. Mae gwaith Paul Sampson hefyd wedi cynnwys:

- Cynhadledd gwrth-hiliaeth yn y gofod arddangos ar gyfer CILIP / Llyfrgelloedd - roedd gofod yr oriel yn darparu lleoliad artistig a llawn ysbrydoliaeth ar gyfer y digwyddiad.
- Bu i brosiect partneriaeth 'Dyma Fi' gyda Chartrefi Conwy gyrraedd rhestr fer gwobr celfyddydau yn y gymuned Celfyddydau a Busnes Cymru (gwaith yn tynnu sylw / dathlu tenantiaid hŷn Cartrefi Conwy) - bydd arddangosfa yn cael ei gosod ym mhrif ardal arddangos Venue Cymru.
- Hybrid - arddangosfa o waith myfyrwyr ffotograffiaeth Gradd Sylfaen Coleg Llandrillo a agorodd yng Nghoed Pella ac sydd nawr wedi symud i Lyfrgell Bae Colwyn. Yn awr yn gweithio gyda myfyrwyr BA Ffotograffiaeth Llandrillo i baratoi ar gyfer eu harddangosfa derfynol.





Archifau

- Yn ystod mis Chwefror darparwyd nifer o sesiynau un i un ar gyfer pobl fusnes lleol i ddarganfod hanes eu busnesau / eiddo a sut y gallent ddefnyddio treftadaeth i wella eu cynnig. Cafwyd adborth gwych.
- Rydym wedi cynnal a chyd-gynnal nifer o ddigwyddiadau gyda Chymdeithas Hanes Teulu Conwy i Ysgol Llangelynnin (gyda llyfrgelloedd) i gefnogi Amgueddfeydd gyda'u digwyddiadau treftadaeth LHDTCRh+.
- Wedi recriwtio dau wirfoddolwr arall yn ystod y cyfnod o ddau begwn yr ysgol yrfaoedd, myfyriwr chweched dosbarth a chyn-archifydd sydd wedi ymdeol.

Amgueddfeydd

Cynhaliodd y Gwasanaeth Amgueddfa ddigwyddiadau i nodi Mis Hanes LHDTCRh+ ym mis Chwefror: gweithgaredd creu llwyau caru o glai dan arweiniad yr arlunydd lleol Katie Ellidge a digwyddiad dathlu gan gynnwys sgysiau am brofiadau personol gan Parch. Rev Sarah Hildreth-Osborn, ac am y prosiect Siroedd LHDTCRh+ Cymru gan Norena Shopland, a pherfformiad ar fywyd y cerfluniwr Fictoraidd yn wreiddiol o Gonwy, John Gibson, gan Jane Hoy a Helen Sandler o'r cwmni theatr Queer Tales From Wales - yn ogystal â chacen enfys! Roedd y digwyddiadau'n cynnig awyrgylch croesawgar i bawb ddod at ei gilydd i ddathlu eu hanesion amrywiol. Roedd yn amlwg o'r adborth ein bod wedi cyflawni'r nod o hyrwyddo archifau ac amgueddfeydd fel manau diogel.



Croesawodd Gwasanaeth yr Amgueddfa fyfyrwyr o Brifysgol Bangor ar fodiwlau lleoliadau gwaith am y tro cyntaf. Mae'r modiwlau hyn yn addysgu myfyrwyr am ofalu am gasgliadau, gan gynnwys trin, labelu, pecynnu, prosesau gwaith papur a chatalog cronfa ddata'r amgueddfeydd.

Rydym wedi bod yn paratoi ac yn gweithio'n galed tuag at gyflawni Achrediad Amgueddfa sydd bellach wedi'i gyflwyno ac a fydd yn cael ei asesu gan banel ym mis Mai.